

Safonau Gwaelodlin ADRh

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd e-ddysgu i fyfyrwyr drwy'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir (ADRh); mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am raglenni a modylau, deunyddiau dysgu a gweithgareddau ar gyfer dysgu. Mae'r safon trothwy hon yn mynegi set sylfaenol o ofynion y mae'n rhaid i bob rhaglen/modwl ei chael o ran presenoldeb ADRh. Defnyddir y termau 'trothwy' a 'gwaelodlin' i ysbrydoli staff addysgu i fynd y tu hwnt i safon sylfaenol. Anogir defnydd helaethach ac arloesol o ADRh y Brifysgol i gefnogi dysgu ac addysgu.

Dyma nodau Safon Gwaelodlin yr ADRh:

1. Hwyluso ac annog ymagwedd ystyriol iawn at ddefnyddio'r ADRh ar draws y Brifysgol a phrofiad cyson i fyfyrwyr.
2. Cefnogi a/neu ategu gweithgareddau e-ddysgu myfyrwyr a addysgir yn uniongyrchol.
3. Darparu canllawiau clir i staff academiaidd a gweinyddol ynghylch darparu adnoddau a'r wybodaeth sydd ar gael drwy'r ADRh.
4. Darparu llwyfan i wella gweithgareddau e-ddysgu ymhellach.

Mae math a maint y defnydd o'r ADRh yn wahanol ar gyfer rhaglenni ar y campws o'i gymharu â rhaglenni ar-lein a chyfunol. Mae rhaglenni ar y campws yn tueddu i ddefnyddio'r ADRh yn ddull cymorth / gwella yn ogystal ag amser cyswllt wedi'i drefnu all-lein. Mae rhaglenni ar-lein yn cynnal y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r gweithgareddau dysgu, addysgu a/neu asesu ar-lein. Mae rhaglenni cyfunol, lle darperir cyfran ddiffiniedig o addysgu, dysgu neu asesu ar-lein, yn cynnwys darparu ar-lein bwriadol a strwythuredig y mae myfyrwyr yn dibynnu arno ar gyfer dysgu craidd. Mae'r Safon, felly, yn darparu llinellau sylfaen gwahaniaethol (yn seiliedig ar fframwaith a weithredwyd yng Ngholeg Prifysgol Llundain):

- Gwaelodlin Safonol: ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle (yn seiliedig ar y campws, ar-lein, a chyfunol).
- Gwaelodlin Uwch: ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig (naill ai'n llawn neu'n rhannol, h.y. ar-lein neu gyfunol).
- Gwaelodlin Uchaf: ar gyfer pob modwl lle mae tiwtoriaid am ychwanegu gwerth ychwanegol at eu cynnwys.

Rhaid i bob modwl a addysgir yn PCYDDS fodloni'r lefel *Gwaelodlin Sylfaenol*, er mwyn darparu profiad cyson i fyfyrwyr.

Rhaid i raglenni ar-lein hefyd fodloni'r lefel *Gwaelodlin Uwch*, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio ar-lein yn cael y cymorth a'r wybodaeth ychwanegol y mae eu hangen arnyn nhw. O ystyried bod darparu cyfunol yn sefyll rhwng darparu ar y campws ac ar-lein, mae hefyd angen iddo gadw at y lefelau *Gwaelodlin Sylfaenol Safonol* ac *Uwch*. Fodd bynnag, byddai llawer o bwyntiau o dan y *Waelodlin Sylfaen Uwch* hefyd o fudd i gyrsiau campws, yn enwedig os oes elfen ar-lein uchel.

Yn ogystal, mae'r *Waelodlin Uchaf* yn darparu gwelliannau pellach ac arferion gorau sy'n ddewisol i bob dull darparu ond sy'n darparu cyfeiriad teithio uchelgeisiol.

Rhennir y llinellau gwaelodlin yn naw categori, gyda disgrifiad ar gyfer pob un o'r hyn sydd ei angen i fodloni'r gofynion.

1. Tudalennau rhaglen
2. Strwythur a llywio
3. Gogwydd
4. Cyfathrebu a chyfranogiad myfyrwyr
5. Asesu
6. Adnoddau
7. Cydnawsedd ar draws llwyfannau
8. Hygyrchedd
9. Hawlfraint ac eiddo deallusol

Rhaid bod gan bob rhaglen a addysgir bresenoldeb ADRh, sy'n cynnwys y canlynol:

- 1 Tudalen y rhaglen, sy'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol ac sy'n ymwneud â'r rhaglen ac unrhyw wybodaeth benodol i'r Athrofa.
- 2 Tudalen modwl ar gyfer pob un o'r modylau a addysgir mewn rhaglen.

Bydd athrofeydd yn cynnal archwiliad ADRh blynyddol, gan ddefnyddio dull samplu, a byddan nhw'n adrodd ar ganlyniadau penodol wrth Fyrddau'r Athrofeydd yn rhan o broses adolygiadau blynyddol o raglenni (APR). Bydd Cynrychiolwyr yr Athrofeydd yn adrodd ar ganlyniadau cyffredinol yr archwiliad wrth y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr (SEC).

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU RHAGLENNI (Gorfodol ar gyfer pob rhaglen sydd â phresenoldeb ym Moodle – ar y campws, ar-lein a chyfunol)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU RHAGLENNI (Gorfodol ar gyfer unrhyw raglenni sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni ar y campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU RHAGLENNI (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob raglen – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
1. Tudalennau rhaglen	Er mwyn osgoi dyblygu gwybodaeth ar draws modylau, dylid defnyddio'r dudalen hon ar gyfer gwybodaeth sy'n gyffredin i'r rhaglen gyfan, e.e. newyddion/hysbysiadau. 1.1. Darparwch Lawlyfr y Rhaglen Astudio (neu hyperddolen ato). Bydd hyn yn darparu cyflwyniad i'r rhaglen, ei strwythur, a'r Manylebau Modwl sy'n cynnwys nodau a chanlyniadau dysgu ar gyfer y modylau (ymhlith pethau eraill, megis gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Athrofa). 1.2. Darparwch amserlen asesu o ddyddiadau ar gyfer darparu asesiadau.	1.3. Darparwch gyflwyniad i'r rhaglen, gan gynnwys yr adnoddau sydd eu hangen a phwy y dylai myfyrwyr gysylltu â nhw os cân nhw broblemau ynghylch TG/mynediad a/neu eisiau cael mynediad at gymorth/gwasanaethau i fyfyrwyr.	1.4. Rhowch ganllawiau sy'n ymwneud â ffactorau sy'n dylanwadu ar astudiaeth ar-lein lwyddiannus. 1.5. Darparwch fideo sy'n cyflwyno'r rhaglen.

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
2. Strwythur a llywio	Ystyriwch sut y bydd myfyrwyr yn llywio trwy'r tudalennau modwl i ddod o hyd i'r hyn maen nhw'n chwilio amdano. 2.1. Rhaid trefnu adnoddau a gweithgareddau mewn ffordd ystyrlon, strwythuredig glir i hwyluso llywio o fewn i dudalen lanio'r modwl (sef y dudalen gyntaf y mae myfyrwyr yn ei gweld) ac oddi yno. Gall hyn fod fesul thema/pwnc neu yn ôl yr amserlen dosbarth wythnosol (neu gyfnod arall), er enghraifft. 2.2. Grwpiwch eitemau cysylltiedig gyda'i gilydd. Defnyddiwch destun/penawdau sy'n nodi'r cynnwys yn glir. Er enghraifft, gallai adrannau allweddol gynnwys: • Deunyddiau dysgu ac addysgu • Gwybodaeth am y modwl • Gwybodaeth gyswllt • Rhestr ddarllen (yn unol â'r Polisi Rhestr Ddarllen)	2.5. Darparwch gynllun a phrofiad cyson i fyfyrwyr a staff. Gall hyn gynnwys cytuno ar 'arddull tŷ' ar lefel yr Athrofa i weddu i'r rhaglen sy'n cael ei darparu. 2.6. Darparu canllawiau clir i fyfyrwyr ynghylch y tasgau a gweithgareddau ffurfiannol a/neu grynhoi y maen nhw i'w cwblhau, ym mha drefn, a chyda dyddiadau cau, lle bo hynny'n berthnasol. Gellir defnyddio rhyddhau addasol i arddangos cynnwys yn ddetholus yn ôl yr angen, h.y. 'cuddio' tasgau nes bod myfyrwyr wedi cael y cyfle i gwblhau tasgau rhagofynnol.	2.7. Defnyddiwch offer megis y swyddogaeth 'Archebu' o fewn Moodle i drefnu symiau mawr o wybodaeth.

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	Gwybodaeth asesu. 2.3. Peidiwch â gorfwrtho tudalen laniog'r modwl. Yn hytrach, trefnwch gynnwys mewn teils / adrannau er mwyn osgoi'r angen am sgrollo'n ormodol. 2.4. Cyn i'r modwl ddechrau, gwiriwch gyfreddd ac argaeledd y cynnwys. Tynnwch neu cuddiwch yr holl adrannau sydd heb eu defnyddio er mwyn osgoi ffolderi heb gynnwys (neu'n waeth, cynnwys sydd wedi dyddio). Gwiriwch fod yr holl ddolenni gwe yn fyw; trwsiwch neu ddileu dolenni sydd wedi torri.		
3. Gogwydd	3.1. Cyflwynwch dudalen ADRh y modwl, a'i berthynas â gweithgareddau all-lein y modwl. 3.2. Darparwch gynllun/amserlen waith dysgu ac addysgu. 3.3. Esboniwch y disgwyliad y bydd myfyrwyr yn defnyddio'r dudalen, e.e. cymryd rhan mewn grwpiau trafod, cyrchu	3.4. Anfonwch neges e-bost groesawu drwy'r e-bost at fyfyrwyr cyn / ar ddechrau'r modwl. 3.5. Rhewch gyfle i fyfyrwyr 'gwrdd' â'i gilydd yn yr amgylchedd rhithwir. 3.6. Ar gyfer pob gweithgaredd ffurfiannol neu grynodol,	

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	deunyddiau dysgu, pa weithgareddau sy'n orfodol, a pha weithgareddau sy'n ddewisol.	rhowch ganllawiau clir o'r hyn y disgwylir i'r myfyriwr ei wneud. 3.7. Nodwch y dulliau cymorth myfyrwyr ar gyfer y modwl ar-lein ac all-lein.	
4. Cyfathrebu a chyfranogiad myfyrwyr	4.1. Rhowch fanylion cyswllt staff: enw, swydd, ffôn, e-bost, lleoliad. Nodwch oriau swyddfa neu oriau galw heibio ar-lein neu all-lein (fel y bo'n briodol) a/neu ganllawiau ar ba mor fuan y gall myfyrwyr ddisgwyl ateb. 4.2. Esboniwch sut y bydd myfyrwyr a staff yn cyfathrebu. Er enghraifft, dylid annog myfyrwyr i bostio cwestiynau cyffredinol neu gwestiynau cyffredin i fforwm gan y gall rhai cwestiynau fod mor hawdd eu hateb gan gyfoedion, a gall pawb elwa. I'r gwrthwyneb, gellid defnyddio e-bost ar gyfer materion personol. 4.3. Defnyddiwch y fforwm Cyhoeddiadau ar gyfer cyhoeddiadau / gwybodaeth	4.8. Dylid dylunio gweithgareddau i fynnu bod myfyrwyr yn rhyngweithio â gweithgareddau ar-lein i gynnal cymhelliant myfyrwyr ac ymgysylltu'n weithredol â nhw yn y broses ddysgu. Gall hyn gynnwys gweithgareddau megis hunanasesiadau ar-lein, cyfrannu at drafodaethau, a chwblhau senarios rhyngweithiol. 4.9. Darparwch ddulliau clir ar gyfer cydweithio ar ystod o dasgau a/neu asesiadau a rhannu adnoddau naill ai'n unigol neu'n gydweithredol (rhwng cymheiriaid) gan ddefnyddio offer ar-lein megis wikis, geirfa, cronfeydd data a fforymau trafod.	4.11. Monitrwch gyfranogiad myfyrwyr mewn gweithgareddau disgwylid megis fforymau ar-lein ac anfon nodiadau atgoffa at y rhai sydd eto i gyfrannu at weithgareddau neu asesiadau. 4.12. Rhowch lun o'r aelod o staff, naill ai yn llun proffil neu ar dudalen y modwl. 4.13. Defnyddiwch swyddogaeth 'calendr' i gyfathrebu dyddiadau pwysig i fyfyrwyr. 4.14. Defnyddiwch offeryn apwyntiadau, megis 'Rhaglennydd' ym Moodle, i alluogi myfyrwyr i drefnu apwyntiadau gyda'r tiwtor(iaid) modwl. 4.15. Darparwch ymateb y tu allan i'r swyddfa i negeseuon e-bost myfyrwyr gan Moodle, i reoli

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	am unrhyw newidiadau / diweddariadau y mae angen i fyfyrwyr fod yn ymwybodol ohonyn nhw (gyda chymorth e-bost awtomatig). Mae hon yn sianel unffordd - ni all myfyrwyr bostio ateb neu anfon ymateb e-bost at y garfan. 4.4. Rhaid i fyfyrwyr gael y cyfle i werthuso'r modwl yn ddienw, gan gynnwys ei elfennau ar-lein, e.e. trwy'r bloc Holiadur Gwerthuso Modwl a ddarperir. 4.5. Dylid gwneud myfyrwyr yn ymwybodol bod disgwyl iddyn nhw gadw at y Cod Ymddygiad Myfyrwyr, sy'n hyrwyddo rhyngweithiadau ar-lein parchus ac ystyriol, gan feithrin cymuned ddysgu gadarnhaol a chynhwysol i bawb. 4.6. Hwyluso trafodaethau, asesiadau ac adborth ar-lein trwy'r ADRh i wella'r profiad dysgu;' a 'Monitro a chymedroli trafodaethau a fforymau ar-lein	4.10. Dylid darparu fforwm Holi ac Ateb cyffredinol, lle gall tiwtoriaid a/neu fyfyrwyr wneud sylwadau, gofyn ac ateb cwestiynau.	disgwyliadau ynghylch amseroedd ymateb. Gall hyn fod yn swyddogaeth ar wahân i'r brif system e-bost – cysylltwch â'r adran Technoleg a Systemau Gwybodaeth am gyngor ar sefydlu. 4.16. Crëwch a dyfarnu 'bathodynau digidol' am gyflawniadau a chwblhau gweithgareddau. 4.17. Defnyddiwch yr ymarferoldeb 'cwblhau amodol' i farcio'n awtomatig fod gweithgaredd wedi'i gwblhau pan fydd myfyriwr wedi bodloni amodau penodol, e.e. wedi postio deirgwaith mewn fforwm. 4.18. Defnyddiwch y dull 'rhyddhau addasol' (gweler 2.6) ar y cyd â 'cwblhau amodol' i greu profiad 'gemau' – mae'n rhaid i'r myfyriwr 'ddatgloi' cynnwys trwy gwblhau tasgau penodol.

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	i gynnal amgylchedd dysgu parchus a chynhwysol. 4.7. Dylid gweithredu fforwm/fforymau dysgu cymedrol ar gyfer trafodaethau sy'n ymwneud â gweithgareddau cwrs penodol.		
5. Asesu	5.1. Rhowch fanylion am y drefn asesu, e.e. nifer y cydrannau asesu, pwysoli fesul elfen, dull asesu, dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno, ac adborth. Gall hyn fod ar ffurf Llawlyfr Modwl neu GA36. 5.2. Ar gyfer pob asesiad, postiwrch fanyleb yr asesiad, gan gynnwys y tasgau, canllawiau a meini prawf marcio. Gall hyn fod yn rhan o Lawlyfr Modwl. 5.3. Rhowch gyfarwyddyd clir ynghylch sut mae myfyrwyr i gyflwyno eu gwaith cwrs (e.e. copi caled neu electronig) a ble. 5.4. Ar gyfer gwaith cwrs sydd i'w gyflwyno'n electronig, gwnewch yn siŵr bod myfyrwyr	5.6. Dylai aseiniadau gael eu marcio'n electronig, gan ddefnyddio Stiwdio Adborth Turnitin, neu weithgaredd 'Aseiniad' adeiledig Moodle, er enghraifft.	5.7. Darparwch dasgau asesu ffurfiannol, megis cwisiau, tasgau llusgo a gollwng, neu fideos rhyngweithiol. 5.8. Darparu adborth asesu gan ddefnyddio ystod o gyfryngau, e.e. sain / fideo. Mae Turnitin a Panopto ar gyfer asesu ysgrifenedig a fideo ill dau yn darparu opsiynau adborth amlgyfrwng.

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	yn ymwybodol o ddyddiadau cau sy'n ymwneud â chyflwyniadau drafft a terfynol i Turnitin. 5.5. Pan fo'n berthnasol, rhwch gyfarwyddiadau arholiadau enghreifftiol a phapurau arholiad enghreifftiol (neu ddolen atyn nhw).		
6. Adnoddau	6.1. Dylid lanlwytho deunyddiau addysgu sy'n bodoli mewn fformat digidol addas i'r ADRh e.e. sleidiau cyflwyno a ddefnyddir mewn darlithoedd, gweithgareddau/taflenni a ddefnyddir mewn tiwtorialau. Does dim angen nodiadau addysgu personol na chynlluniau gwersi staff. 6.2. Dylai Rhestrau Adnoddau Ar-lein sy'n ymwneud ag unrhyw ddarlleniadau hanfodol neu gefndir ar gyfer y modwl fod ar gael (neu ddolen atyn nhw). Gall hyn gynnwys amrywiaeth o ffynonellau megis llyfrau, cyfnodolion, gwefannau, ac ati	6.4. Dylid defnyddio ystod o weithgareddau dysgu a chyfryngau, gan gynnwys, er enghraifft, fideo a sain wedi'u hymgorffori, cwisiau, heriau seiliedig ar senarios, astudiaethau achos, blogiau, cymryd rhan mewn trafodaeth grŵp, sesiynau sgwrsio byw, recordio darlithoedd. 6.5. Darparwch ddolenni at adnoddau ar-lein allanol.	6.6. Cysylltwch â'r tîm Dylunio Dysgu i greu cynnwys addysgu ar-lein pwrpasol.

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	(Gweler adran 9 ynglŷn â hawlfraint ac IP). 6.3. Rhaid i dudalennau modwl gydymffurfio â'r polisi recordio darlithoedd fel yr amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd		
7. Cydnawsedd ar draws llwyfannau	7.1. Defnyddiwch fformatau safonol, megis PDF ar gyfer dogfennau sy'n seiliedig ar destun (e.e. PowerPoints), JPG ar gyfer delweddau, a MP3 ar gyfer sain, gan y gellir eu cyrchu ar amrywiaeth o ddyfeisiau. Dylid defnyddio dogfennau Word ar gyfer dogfennau y gellir eu golygu'n electronig megis templedi, taflenni gwaith neu daflenni clawr yn unig. 7.2. Os dewiswch chi ddefnyddio fideos, defnyddiwch lwyfannau darparu cyffredin megis YouTube, Panopto neu Clipchamp ar gyfer clipiau fideo. Osgowch fformatau sy'n gofyn am feddalwedd arbenigol neu ategion (e.e. Flash) oni bai eu bod yn		7.3. Cywasgwch ffeiliau mawr i leihau maint y ffeil a helpu'r myfyrwyr hynny sy'n eu gweld ar ddyfeisiau symudol. Dylid arddangos maint a math y ffeil ochr yn ochr ag enw'r ffeil, e.e. Ymgyrch Farchnata Starbucks 34MB

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	ofynnol ar gyfer y pwnc astudio, gan nad yw pob dyfais yn eu cefnogi.		
8. Hygyrchedd	8.1. Cydymffurfiwch â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018. 8.2. Wrth greu neu lanlwytho cynnwys i'r ADRh: • Defnyddiwch arddull testun cyson a hygyrch yn Moodle • Defnyddiwch faint ffont 12 o leiaf • Defnyddiwch ffont adeiledig a'i ddefnyddio'n gyson o fewn modwl • Defnyddiwch yr arddulliau ffont adeiledig (Paragraff, Pennawd 1, Pennawd 2 ac ati) i greu hierarchaeth testun yn hytrach nag addasu meintiau ffont â llaw • Defnyddiwch brint trwm i bwysleisio yn hytrach na		

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	phriflythrennau neu danlinellu testun 8.3. Defnyddiwch y gwiriwr Hygyrchedd Moodle (Pecyn Cymorth Cychwynnol Hygyrchedd Brickfield) i asesu ac addasu cynnwys i gydymffurfio â safon hygyrchedd 2.2 AA WCAG. 8.4. Ystyriwch ddarparu cynnwys ar wahanol fformatau, lle bo'n bosibl ac yn addas. Er enghraifft, gallai diagram ategu testun i gefnogi dealltwriaeth. 8.5. Am arweiniad ar sut i greu cynnwys hygyrch, cyfeiriwch at yr e-ddysgu gorfodol Creu Cynnwys Hygyrch <https://moodle.uwtsd.ac.uk/course/view.php?id=10529>. Cysylltwch â'r Rheolwr Cymorth Dysgu (LSM) ar gyfer eich Athrofa i gael arweiniad pellach. 8.6. Cadwch at safonau'r Gymraeg wrth ddylunio cynnwys cyrsiau ar yr ADRh ar gyfer cyrsiau sy'n cynnig darpariaeth drwy		

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	gyfrwng y Gymraeg. Gall Tîm y Gymraeg roi cyngor a chymorth pellach: ygybraeg@pcydd.ac.uk <mailto:welshlanguage@uwtsd.ac.uk>		
9. Hawlfraint ac eiddo deallusol	9.1. Cydymffurfiwch â deddfwriaeth hawlfraint ac eiddo deallusol a pholisïau priodol y Brifysgol. 9.2. Os bydd amheuaeth: - ymgynghorwch â Gwasanaeth y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu ynghylch unrhyw ymholiadau hawlfraint i sicrhau cydymffurfiaeth â gwahanol drwyddedau a ddelir gan y Brifysgol gan gyrrff megis yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint; - cyfeiriwch at wybodaeth ar dudalennau gwe'r Llyfrgell ynglŷn â sganio deunyddiau cwrs gan berson dynodedig h.y. staff y llyfrgell i'w cynnwys ar yr ADRh e.e. pennod o lyfr; - darparwch ddolenni at wefannau defnyddiol yn		

	GWAELODLIN SAFONOL AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer pob modwl sydd â phresenoldeb ym Moodle - yn seiliedig ar y campws, ar-lein a chymysg)	GWAELODLIN UWCH AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gorfodol ar gyfer unrhyw fodylau sydd ag elfen ar-lein yn unig – ar-lein a chyfunol; gwelliannau dewisol ar gyfer rhaglenni campws)	GWAELODLIN UCHAF AR GYFER TUDALENNAU MODWL (Gwelliannau dewisol ar gyfer pob modwl – ar y campws, ar-lein a chyfunol)
	hytrach na chopïo testun yn uniongyrchol i fodwl; • defnyddiwch ddelweddau ffynhonnell agored neu hawlfraint. Man cychwyn defnyddiol yw Creative Commons, gweler https://creativecommons.org/.		